CYNGOR CYMUNED BETWS

2005 07 Gorffennaf Cofnodion

CYNGOR CYMUNED Y BETWS

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Betws ar Ddydd Mercher y 13eg o Orffennaf 2005 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Loreen Lewis (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr Menna Roberts, Carwyn James, Delyth Richards, Peter Cowell, Anne Sizmur, Annette Price, Keith Rees a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIAD: Cynghorwyr Graham Vaughan, E Audrey Jones a June Gunter.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AG YSTYRIED Y COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 8fed O FEHEFIN 2005.
Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 8fed of Fehefin 2005.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Safle Gwe Cymunedol.
Roedd y Cynghorwr Peter Cowell wedi dweud wrth y Cynghorwyr bod y Cyfrifiadur wrth Gymdeithas y Teithwyr yn mynd i gael ei ddosbarthu ar y 14eg o Fis Gorffennaf, mae ef wedi rhoi hwn ar yswiriant ei dy, sydd yn mynd i gostio tua £20 y flwyddyn. Hefyd mae 'na dâl o £35 am gofrestru ar y we. Cytunodd y Cynghorwyr i dalu'r costau hyn, a bydd yn cael eu talu yn eu pryd.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.2 Ymweliad â safle Gwaith Glo'r Betws.
Rhoddodd y Cynghorwr Peter Cowell adroddiad manwl yngly^n â'r safle we. Roedd y Cynghorwr Loreen Lewis wedi dweud fod yr ardal wedi cael ei thacluso cyn yr ymweliad ar y safle a hefyd roedd y peiriannau wedi'u tawelu.

Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi cael copi o GR3 map o Fetws wrth Adran Gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn anfon am gopïau i'r Cynghorwyr i gyd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn cael copïau o'r map i'r Cynghorwyr.

Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr fod y gweithwyr sy'n gweithio ar safle gwaith Glo'r Betws yn dechrau'r peiriannau cyn 7.30 y bore a'u bod yn gweithio tan 7.30 y nos. Mae'r trigolion wedi bod yn cwyno oherwydd bod sw^n a dwst yn dod o'r safle. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn cysylltu gyda Adran Iechyd yr Amgylchedd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Adran Iechyd yr Amgylchedd.

2.3 Awdurdod Glo - Perygl Arwynebedd Gwaith Glo Rhydaman Rhif. 1.
Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi bod yn siarad gyda'r Awdurdod Glo i weld beth sydd yn digwydd yngly^n â diogelu'r drifft. Dywedodd yr Awdurdod Glo iddynt ysgrifennu at TRJ i ofyn am ganiataid i fynd ar y tir i ddiogelu'r drifft. Nid yw'r Awdurdod Glo wedi derbyn ateb eto wrth TRJ. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell fod llythyr yn cael ei ddanfon i TRJ

i ofyn am fynediad i'r Awdurdod Glo i'r tir.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at TRJ.

2.4 Rhoddion.
Darllenodd y Clerc ateb derbyniodd wrth y Parchedig Delyth Bowen, yn dweud fod yr arian mae Cyngor Cymuned y Betws yn rhoi tuag at gynhaliaeth mynwent Dewi Sant yn cael ei dalu mewn i gronfa'r fynwent a nid i'r cyfrif canolog.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.5 Papur Trafod.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn cadarnhad bod Eifion Bowen wedi derbyn copi o'r papur trafod.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.6 Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur i ddatblygwr wedi torri coeden lawr nôl yn Mis Mai, gan nad oedd yn gwybod am drefn cadwraeth. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur i'r Clerc ysgrifennu at Swyddog Cadwraeth Coedwig, i awgrymu bod pob goruchwyliwr ystâd yn cael copi o'r drefn cadwraeth coedwig a hefyd bod copi yn cael ei ddanfon i'r Cyngor Lleol, a'i roi i ddatblygydd, pan fo nhw'n cyflwyno cais cynllunio.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at y Swyddog Cadwraeth Coedwig.

2.7 Ffordd Gerdded o Ffordd y Cyrnol, Betws i Ysgol y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud bod y mater hwn wedi cael ei drosglwyddo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technegol, sy'n gyfrifol am y materion amlinellwyd yn y llythyr.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.8 Pont ym Mharc Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi bod yn siarad gyda Peter Locksmith ac iddo ddweud bod y bwa at y bont yn y parc yn cwympo i mewn. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell fod y Clerc yn dweud wrth Adran y Parc a hefyd yn gofyn beth sydd yn digwydd yngly^n a'r drefn cadwraeth.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran y Parc.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cyngor Sir Caerfyrddin - Goleuadau Nadolig.
Darllenodd y Clerc ohebiaeth derbyniodd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae Cymdeithas y Syrfewyr Sirol wedi diweddaru ei Chod Ymarfer yn ddiweddar ar gyfer Gosod, Defnyddio a Thynnu Goleuadau Nadolig. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn cael copi o'r Còd Ymarfer er gwybodaeth.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn cael copi o'r Cod Ymarfer.

3.2 Cynhadledd Genedlaethol Cymuned Maes Glo.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod cynhadledd genedlaethol cymuned maes Glo yn cael ei cynnal yn Fife. Gofynnodd y Cynghorwr Keith Rees os allai'r Clerc ddarganfod enw'r cynrychiolydd o Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gwneud ymholiadau.

3.3 Mae'r ohebiaeth ganlynol wedi eu cydnabod ac mae'r cynnwys wedi eu nodi.
1. Cyngor Sir Caerfyrddin.
1.1 Anghenion Hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned.
1.2 Cyfarfod Rhwydwaith Cymunedol Yr Aman Mehefin 2005.
1.3 Adolygiad Canol Tymor - Strategaeth Datblygu Economaidd 2000-2010.
1.4 Cynllun Gwella 2005/2006.

1.5 Diweddariad Strategaeth Gorfforaethol 2005/10.
2. Un Llais I Gymru.
2.1 Agenda Pwyllgor Ardal Caerfyrddin.
2.2 Cofnodion Pwyllgor Ardal Caerfyrddin.
3. Llywodraeth Cynulliad Cymru.
3.1 Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru.
3.2 Cyflawni ein Haddewidion, rhoddwyd copïau i'r Cynghorwyr.
4. Cyngor Iechyd Cymuned.
5. Ymchwiliad Cyhoeddus Cynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin.
6. Lyfryn Newyddion Gwasanaeth Tân ac achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

4. MATERION CYNLLUNIO.
Gwrthwynebodd Cyngor Cymuned y Betws y ceisiadau isod:-

E/10453 - Datblygiad Telegyfathrebu Hutchinsons 3 G
Tir ger Bwdist Uchaf, Trehopcin, Pontaman
Hutchinson 3G UK

E/10446 - Adeiladu 16 Melin wynt: Mynydd Y Betws, Betws
Egni adnewyddol Cambrian

Mae'r Cyngor Sir wedi gwrthwynebu'r cais isod:-
E/08905 - Amrywiad o Amod 3 o'r caniatad cynllunio i ganiatáu prosesu'r cynnyrch yn y man lle golchir y glo
Gwaith Glo Glyncywarch, Betws
L R Phillips

Cytunwyd y ceisiadau isod gan Gyngor Sir Caerfyrddin:-
E/09880 – Bwriad o godi Byngalo
plot o dir ger Fila Pencoed, Heol Maescware, Betws

Mr Geraint Jones

E/09980 - Bwriadu Newid 4 Uned ddiwydiannol
Gwaith Glo y Betws
T R Jones

E/10092 - Bwriadu gwneud estyniad i gegin
28 Heol Pentwyn, Betws
Mrs Griffiths

E/09753 - Ymestyniad dau lawr
Ffarm Llethrlan Fawr
D R Griffiths

E/09647 - Lon newydd i fynediad agos i blot 47 Ffordd Y Cyrnol, Betws
Plot agos i 47 Ffordd Y Cyrnol
D M Davies

E/09749 - Gwelliant i gais cynllunio rhif E/07422 rhannu garej ddwbl yn ddau garej unigol
Tir tu ôl i 55-59 Heol Maescware, Betws
Tai Woodstock

5. CYFRIFON.
1. Mr R Lewis - Cynhaliaeth Llwybrau £800.00
2. CCC - Golau Llwybrau £274.54

3. Cynghorwr Peter Cowell £16.48
4. Rhodd - ChildLine Cymru £100.00
5. Rhodd - Shelter Cymru £100.00
6. Rhodd - Urdd Gobaith Cymru £100.00
7. Rhodd - Band Arian Rhydaman £100.00
CYFANSWM £1491.02
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell wrth y Cynghorwyr fod y Camera digidol wedi cael ei archebu a bydd yn cael ei ddosbarthu ar yr 24ain o fis Gorffennaf, cost y camera yn cynnwys ei dosbarthu yw £105.00
NODWYD: y pwynt uchod.

Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi gwario £16.48 hefyd ar gofrestru y Safle We Gymunedol ar y rhyngrwyd.
PENDERFYNWYD: i dalu £16.48. i'r Cynghorwr Peter Cowell

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd PC Kevin Jones fod 4 trosedd i'w nodi am fis Mehefin yn ardal y Betws:
1 lladrad golau solar, 1 lladrad trwydded cerbyd, 1 niwed i gerbyd, 1 lladrad.
Nid yw'r troseddau wedi cael eu datrys eto.

Bu 237 o bobl ifainc yn bresennol yn y Disgo Glas a gynhaliwyd yn mis Mehefin.

Dywedodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod wedi ysgrifennu at Arolygwr y Ward yngly^n â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mharc y Betws. Dywedodd bod modd i Gyngor Sir Caerfyrddin wneud mwy i helpu'r sefyllfa. Mae 'na ddau Warden Cymunedol yn ardal Dyffryn Aman, ond mae'n anodd i nhw gadw llygad ar ardal mor ddaearyddol fawr. Dywedodd y Cynghorwr Sir John D Evans fod hefyd wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin i weld os all gynyddu rhif y Wardeniaid Cymunedol, a hefyd i ychwanegu at eu pw^er. Nid yw wedi derbyn ateb eto.

Dywedodd y Cynghorwr Sir John D Evans wrth y Cynghorwyr fod Cynllun Digwyddiadau i'r Sir gyfan wedi cael ei baratoi yn dilyn y rêf ar Fynydd y Betws gan obeithio osgoi digwyddiad tebyg eto. Dywedodd PC Jones fod swyddogion Heddlu yn Lloegr yn gweithio llawn amser ar y mater a byddant yn dweud wrth Heddlu Dyfed Powys am unrhyw drefniadau am ddigwyddiad tebyg y byddant yn darganfod ar yr rhyngrwyd.

Gofynnodd y Cynghorwr Arnallt James i PC Jones am adroddiad yngly^n â'r digwyddiad yn Heol Maescware ar y 9fed o Fis Gorffennaf. Nid oedd PC Jones yn ymwybodol o'r digwyddiad, a bydd yn dod o dan droseddau mis Gorffennaf ac yn cael ei drafod yn y Cyngor Cymuned nesaf. Bydd hefyd yn gwneud ymholiadau pellach.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR
Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans wedi adrodd ar y canlynol:-
1. Cais am Fferm Wynt - rhoddwyd map i'r Clerc wrth Adran Busnes a Diwydrwydd sy'n dangos lleoliad arfaethedig y Twrbanau Gwynt. Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell na fu yna astudiaeth Ecolegol a Daearegol o'r Mynydd. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell bod cyfarfod arall yn cymryd lle cyn bod llythyr yn cael ei ddanfon i Gyngor Sir Caerfyrddin. Awgrymodd y Cynghorwr Sir John D Evans i ymweld â'r safle ar Fynydd y Betws a hefyd ymweld â Safle Twrbanau eraill. Hefyd dywedodd dylai'r holi gyhoedd gymryd lle, oherwydd mae'r fater difrifol yngly^n â'r cais. Awgrymodd Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cyngor yn gwneud ymholiadau i weld pa wrthwynebi on wnaeth Gilfach Goch yn y Rhondda.

Penderfynwyd i gael cyfarfod arbennig ar ddydd Llun y 18fed o Fis Gorffennaf am 7.00 yn y nos.
2. Heol Argoed – mae'r cylfert wedi gorffen.
3. Tir tu ôl I'r Oged a'r Aradr - mae cyfarfod wedi cael ei drefnu gyda'r Adran Ystâd o Gyngor Sir Caerfyrddin ar y 26ain o Orffennaf 2005. Dywedodd wrth y Cynghorwyr pan fo Cynghorwyr Cymuned ar ymweliad safle gyda staff Cyngor Sir Caerfyrddin, nid ydynt wedi'u diogelu gan yswiriant y Cyngor.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Betws yn ei Blodau.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur bod Tai Woodstock wedi rhoi tri chwpan fel gwobrau i gystadleuaeth Betws yn ei Blodau. Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur os gall y Clerc anfon llythyr o ddiolch i Dai Woodstock.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon llythyr o ddiolch i Dai Woodstock.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Dalen wrth yr Heddlu.
Roedd y Cynghorwr Loreen Lewis wedi dweud wrth y Cynghorwyr fod yr Heddlu wedi dosbarthu dalen sydd yn manylu rhif ffôn galwadau heb fod yn alwadau brys i'r Heddlu - 0845 3302000.
NODWYD: Y pwynt uchod.

9.2 Cyfarfod Un Llais I Gymru.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn bresennol yn ddiweddar yng nghyfarfod Un Llais i Gymru. Dywedodd fod Un Llais I Gymru yn ychwanegu mwy a mwy o Gynghorau Cymuned i'w ymbarél, ac mae'r Prif Weithredol yn cefnogi unrhyw anghenion o'r Cynghorau Cymuned. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at y Prif Weithredol i ofyn os gall unrhyw beth gael ei wneud oherwydd nid yw Cynghorwyr Cymuned yn cael ei diogelu gan yswiriant y cyngor pan eu bod ar ymweliad safle gyda staff Cyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu a Brif Weithredol Un Llais i Gymru.

9.3 Llwybrau Troed.
Gofynnodd y Cynghorwr Arnallt James, pryd mae'r llwybr troed sy'n arwain i'r bont newydd ar bwys Pantybanwen yn mynd i gael ei agor. Awgrymodd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gary Carlsen.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gary Carlsen.

9.4 Dwr Cymru.
Adroddodd Cynghorwr Annette Price fod Dwr Cymru yn gweithio yn y Betws ar hyn o bryd, a'u bod ond yn rhoi 5 munud o rybudd cyn bod nhw'r troi'r dw^r bant. Mae'r trigolion yn cwyno fod hyn ddim yn ddigon o amser i bobl sydd â phlant ifainc a phobl hen. Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os gall y Clerc ffonio Dwr Cymru i gwyno.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ffonio Dw^r Cymru i weld os mae hyn yn ymarferol.